## Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2019 - 2022

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn seiliedig ar y dogfenau canlynol:

- Adroddiad blynyddol CYSAG
- Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022
- Adroddiadau ESTYN, Mehefin 2018 Addysg Grefyddol yng nghyfnod alweddol 2 a chyfnod allweddol 3

| Blaenoriaeth | Camau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Tystiolaeth | Deilliannau | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd yn weithredol a chadarn dda mewn bob un ysgol.**<br><br>**Cynllunio'n fwriadus i godi delwedd y pwnc.** | • Codi proffil a photensial Addysg Grefyddol yn yr ysgolion uwchradd a chynradd.<br><br>• Adolygu a monitor ansawdd addoli ar y cyd yn yr uwchradd a'r cynradd .<br><br>• Adnabod a sicrhau bod gan pob ysgol person arweiniol Addysg Grefyddol, a bod cyfrifoldeb o gyflwyno Addoli ar y cyd yn glir ac yn weithredol.<br><br>• Darparu hyfforddiant / sesiynau ar sut i gyflwyno addoli ar y cyd o ansawdd.<br><br>• Codi lefel atebolrwydd Aelodau | **Aelodau CYSAG**<br><br>**Aelodau CYSAG [Cydgysyllwtwy AG Uwchradd]**<br><br>**Ysgolion ac Aelodau CYSAG**<br><br>**GwE/ Cydgysylltwyr AG Uwchradd**<br><br>**Awdrdod** | • Adnoddau Addysg Grefyddol a chyd addoli yn y blwch ar fforwm Addysg Môn.<br><br>• Adroddiadau llafar aelodau'r CYSAG.<br><br>• Hyfforddiant penodol wedi ei drefnu drwy Gwe yn dilyn adnabyddiaeth o'r angen<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN. | • Pob ysgol yn cydymffurfio a'r disgwyliadau am addoliad ar y cyd yn ddyddiol.<br>• Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd yn cael ei flaenoriaethu'n fwriadus ga bod ysgol.<br><br>• Perthnasu pwysigrwydd Addysg Grefyddol yn ein bywyd bob dydd trwy lesiant, myfyrdodau a chymuned drwy addoli ar y cyd.<br><br>• Bywyd ysbrydol y dysgwyr yn cael eu meithrin.<br><br>• Hyfforddiant perthnasol wedi ei gynllunio a'i gyflwyno.<br><br>• Aelodau CYSAG yn gweithredu'n llawn i | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | o’r CYSAG.<br><br>• Rhaglen waith ar gyfer yr aelodau iddynt arsylwi sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion.<br><br>• Adroddiadau craffu yn sicrhau bod continiwm o ddysgu. | **Pwyllgor CYSAG** | | ymgyfarwyddo gwaith ysgolion o fewn y maes drwy ymweldiadau a chynnal adroddiadau tymhorol | |
| **Gwybodaeth athrawon am eu cyfrifoldebau mewn AG yn gyfoes er mwyn eu galluogi i addysgu gofynion y CNiG gyda hyder.** | • Sicrhau bod peneithiaid, athrawon ac aelodau o’r CYSAG yn wybodus am ofynion y Addysg Grefyddol fel rhan o’r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau o fewn y Cwricwlwm Newydd.<br><br>• Sicrhau bod cyfleoedd i rannu arferion da rhwng ysgolion drwy edrych ar waith dysgwyr, cynlluniau gwaith ac arsylwadau gwersi anffurfiol.<br><br>• Sicrhau bod cysylltiad rhwng athrawon cynradd ac athrawon MDaPh Dyniaethau er mwyn rhannu arferion da. | **Ymgynghorydd Pwnc ac Arweinwyr o ysgolion arloesi.** | • Enghreifftiau o arferion da.<br><br>• Gwaith dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y CNiG o safon uchel.<br><br>• Cofnodion o gyfarfodydd. | • Gwaith AG pob dysgwr yn adlewyrchu y pedwar diben.<br><br>• Dysgwyr yn cael profiadau gwerthfawr o’r dysgu ac addysgu.<br><br>• AG yn rhan naturiol o’r dysgu ac yn cael sylw cyfartal o fewn y MDaPh. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Creu platfform i rannu adnoddau er mwyn rhannu arferion da o fewn AG ac addoli ar y cyd.** | • Ychwanegu blwch Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn ar fforwm HWB  Addysg Môn. | **Ymgynghorydd Pwnc.** | • Y blwch ar wefan HWB.<br><br>• Enghreifftiau o arferion da ynddo. | • Lleihau llwyth gwaith athrawon wrth gynllunio gwaith AG ac ac addoli ar y cyd.<br>• Hwyluso creu sesiynau cydaddoli I ysgolion.<br>• Banc o wersi da ac ardderchog yn cael eu rhannu rhwng athrawon er mwyn codi safon addysgu AG mewn ysgolion. | |